Eisteddfod Genedlaethol

Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd

Gorffennaf 31 – Awst 7 2010

MAES CARAFANAU
A GWERSYLLA TEULUOL 2010

RHEOLAU AC AMODAU

Eisteddfod Genedlaethol
Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd
Gorffennaf 31 – Awst 7 2010

Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yn y Gweithfeydd, Glyn Ebwy
Blaenau Gwent and the Heads of the Valleys @ The Works, Ebbw Vale

31 Gorffennaf – 7 Awst / *31 July – 7 August* 2010

Swyddfa'r Eisteddfod *Office*
Uned 15, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint CH7 1XP
Unit 15, Mold Business Park, Wrexham Road, Mold, Flintshire CH7 1XP

Trefnydd / *Organiser:* Hywel Wyn Edwards
☎ 0845 122 2003
hywel@eisteddfod.org.uk

Ionawr 2010

Annwyl gyfaill,

Maes Carafanau 2010

Lleolir maes carafanau 2010 ar safle Parc Bryn Bach Tredegar. Mae'r Parc sydd yn atyniad parhaol mewn lleoliad hwylus ger yr A465 (Ffordd Blaenau'r Cymoedd) rhyw dair milltir o Faes yr Eisteddfod yn cynnig nifer o weithgareddau antur ac yn le delfrydol i deuluoedd ymlacio ar ôl diwrnod ar y Maes. Bydd gwasanaeth bws wennol rhwng y Parc a Maes yr Eisteddfod yn weithredol i'r preswylwyr gydol yr wythnos.

Mae poblogrwydd y drefn o gael trydan yn golygu y byddwn yn medru darparu cyflenwad i bob un o'r 500 o'r llecynau sydd ar gael. **A fyddech gystal â nodi fod hyn yn llawer is na chyfanswm y lleoedd oedd ar gael yn 2009 felly cofiwch mai 'cyntaf i'r felin' bia hi i osgoi siom!** Er fod y gost o gynnal a rhedeg y maes carafanau yn cynyddu'n flynyddol, yr ydym wedi penderfynu rhewi'r pris yn 2010 gan godi £5 yn unig yn ychwanegol am drydan.

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau ar faes carafanau y Bala ac adborth o'r holiaduron a yrrwyd allan ym Mis Hydref, yr ydym wedi penderfynu parhau gyda'r mesurau i reoli cerbydau. **Gofynnwn felly i chi dalu sylw arbennig i reol 7 (ff) a (g) o'r rheolau ac amodau, sydd yn ymwneud â chyfyngu nifer y cerbydau a ganiateir ac i rwystro cerbydau rhag symud ar y maes carafanau.**

Gobeithiwn y byddwch yn cytuno gyda'r camau hyn i wneud y maes mor ddiogel â phosibl, ac y byddwch yn cydweithio gyda ni i sicrhau llwyddiant ysgubol Eisteddfod Blaenau'r Gwent a Blaenau'r Cymoedd. Sylwer hefyd fod trefniadau amgen ar gael ar gyfer cofrestru ceisiadau grwpiau.

Unwaith eto mae gan yr Eisteddfod gynigion arbennig i brynu tocynnau mynediad wythnos i Faes yr Eisteddfod ymlaen llaw am bris gostyngol. Gweler rhan 10 o'r rheolau atodol am fanylion pellach.

Yn gywir,

Hywel W. Edwards
Trefnydd

Alan Gwynant
Cyfarwyddwr Technegol

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yn y Gweithfeydd, Glyn Ebwy yn is-adran o gwmni Gwyliau Eisteddfod Genedlaethol Cymru cyf.
Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent and the Heads of the Valleys @ The Works, Ebbw Vale is a sub-division of Gwyliau Eisteddfod Genedlaethol Cymru cyf.

Cwmni cyfyngedig drwy warant wedi ei gofrestru yng Nghymru. Rhif Cwmni 5062037. Elusen Gofrestredig 219171.
A company limited by guarantee, registered in Wales. Company number 5062037. Registered Charity 219171.

MAES CARAFANAU A GWERSYLLA TEULUOL - RHEOLAU AC AMODAU

1. Cyffredinol

a) Gweithredir y maes carafanau a gwersylla gan yr Eisteddfod Genedlaethol, a thrwy arwyddo'r ffurflen gais, a thalu'r swm penodol, byddwch yn dod yn aelod o glwb carafanwyr Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Nid oes gennych hawl i ail-osod unrhyw elfen o'r gwasanaethau y byddwch yn eu harchebu.

b) Bydd preswylwyr yn cael rhif aelodaeth parhaol wrth wneud cais yn 2010 a gallwch ddyfynnu'r rhif hwn i hwyluso ceisiadau i faes carafanau'r Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol.

c) Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan yr Eisteddfod Genedlaethol am niwed personol, niwed neu golled i eiddo, oni ellir profi bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrifol drwy weithred neu anwaith am y niwed neu'r golled.

ch) Rhaid i bob carafán fod â chyfleusterau toiled cemegol, a darperir mannau pwrpasol i wagio'r toiledau hyn – ni ddylid arllwys unrhyw hylif ar wyneb y tir.

d) Caniateir anifeiliaid anwes ond disgwylir i'r perchennog gadw rheolaeth arnynt gydol y cyfnod.

dd) Darperir y maes carafanau a gwersylla ar gyfer teuluoedd ac oedolion. **Cymhellir grwpiau o fechgyn neu ferched i ddefnyddio cyfleusterau'r maes ieuenctid a leolir wrth y Maes ei hun yng Nglyn Ebwy.**

2. Meddiant

a) Bydd y maes carafanau a gwersylla ar agor o 14:00 Dydd Iau 29 Gorffennaf 2010 hyd 14:00 Dydd Sul 8 Awst 2010.

b) Gofynnir i chi gofrestru bob person fydd yn aros yn y garafán / pabell ar ffurflen i'w chyflwyno i'r stiwardiaid wrth gyrraedd y maes carafanau. Gyrrir ffurflen ar gyfer y diben hwn mewn pecyn atoch ddechrau Gorffennaf ynghyd â gweddill y wybodaeth angenrheidiol. Rhoddir band garddwn ar gyfer bob preswyliwr wrth gofrestru, a rhaid gwisgo'r band tra'n aros ar y safle.

c) Bydd y Swyddfa ar agor o 08:00 – 22:00 ar gyfer ymholiadau cyffredinol / lleoli ayb, a bydd swyddogion diogelwch yn bresennol tu allan i'r oriau hyn ar gyfer argyfwng yn unig.

ch) Ni chaniateir i berson dan 18 oed aros mewn carafán / pabell heb arolygaeth oedolyn, a gofynnir i rieni sicrhau ymddygiad a diogelwch eu plant.

d) Ni chaniateir i fwy o bobl aros mewn carafán / pabell na'r hyn y cynlluniwyd hi ar ei chyfer.

dd) Anfonir glynion pwrpasol atoch i'w gosod ar y car / carafán, ac mae'n rhaid eu harddangos drwy gydol yr amser y byddwch ar y maes carafanau.

e) Lleolir y carafanau a'r pebyll gan aelod o'r pwyllgor technegol, a dylid dilyn y cyfarwyddyd a roddir. **Ni leolir unrhyw garafán / pabell ar ôl 21:00 a bydd penderfyniad y swyddogion i leoli neu beidio yn derfynol.**

3. Safle

a) Dosberthir y safleoedd yn nhrefn derbyn ceisiadau.

b) Os ydych am eich lleoli yn agos i gyfeillion, **RHAID** anfon y ffurflenni gyda'i gilydd, yn yr un amlen **NEU** gwlbhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais i gael eich lleoli fel grŵp mor fuan â phosibl - noder mai dim ond unwaith y bydd angen gwneud hyn ar gyfer pob grŵp (cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod am gyfarwyddiadau pellach).

SYLWER – nid yw'n bosib lleoli carafanau sydd am gyflenwad trydan, gyda rhai sydd yn dewis peidio â chael trydan.

c) **Ni fydd** ceisiadau grŵp yn cael eu prosesu nes fod pob aelod o'r grŵp perthnasol wedi cwblhau ffurflen gais a'i ddychwelyd i'r Swyddfa ynghyd â'r tâl priodol.

ch) Gosodir y maes yn unol â'r canllawiau ar gyfer safleoedd carafanau dros dro - gosodir pegiau bob 11 medr, a dylid gosod cornel y garafán at y peg, yn unol â chyfarwyddyd y swyddogion.

d) Gallwch osod pabell wrth ochr y garafán fel adlen. Does dim hawl gosod adlen a phabell wrth ochr y garafán ac eithrio eich bod yn archebu a thalu am safle carafán ychwanegol ar gyfer y babell.

dd) Rhaid cadw o fewn eich safle (11m x 7.5m i garafan a 5m x 7m i babell), a chadw o leiaf 3 medr (4 medr rhwng bob pabell) rhwng eich carafan / adlen a'r garafán / adlen nesaf. **GWEITHREDIR Y RHEOL HON YN DDIAMOD**, a bydd gofyn i chi symud unrhyw wrthrych sydd yn torri'r rheol hon.

e) Bydd gwasanaeth bws wennol rhad ac am ddim yn weithredol o'r Maes Carafanau i Faes yr Eisteddfod gydol yr wythnos.

4. Tâl

a) Bydd y tâl llawn am 10 noson yn £140 (carafan; carafan ac adlen; neu garafan modur).

b) Gellir codi pabell mewn man dynodedig o'r maes carafanau am dâl o £95 (gweler amod 2ch). Rhaid i chi gadw o fewn eich safle (5m x 7m), a chadw o leiaf 4 medr rhwng eich pabell a'r babell nesaf (gweler amod 3d). Os ydych yn dymuno gofod ychwanegol, bydd rhaid archebu ail safle.

c) Os tynnir y cais yn ôl, cedwir 50%. Ni ddylech wneud cais am safle ar y maes carafanau os nad ydych yn sicr bod gennych garafán.

ch) Ni fyddwn yn gyrru cydnabyddiaeth wrth dderbyn ceisiadau.

5. Trydan

a) Ni chaniateir defnyddio generadur, na storio petrol / disel ar y maes carafanau.

b) Darperir trydan gan yr Eisteddfod i'r carafanau sydd yn dymuno hynny, am dâl o £60 am y cyfnod.

c) Cyfyngir y cyflenwad trydan i 10amp ac os byddwch yn gorlwytho'r cyflenwad, torrir y cysylltiad yn awtomatig. Gellir ailosod y swîts, ond os byddwch yn gorlwytho yn ormodol, dad-gysylltir y cyflenwad yn gyfan gwbl. Yn yr achos hwnnw ni roddir ad-daliad.

ch) Does dim modd gosod cyflenwad trydan mewn pabell, oni bai eich bod yn archebu ac yn talu am safle carafan (gyda chyflenwad trydan), ac yn darparu plwg pwrpasol a safonol (gyda theclyn RCBO) ar gyfer cysylltu â'r cyflenwad trydan.

d) Gosodir y cyflenwad trydan yn unol â'r safonau cyfredol (BS 7671) a derbynnir tystysgrif gan y contractwyr yn cadarnhau hynny. Mae teclynnau ar bob plwg (RCBO) sydd yn gwarchod rhag sioc drydanol, ac mae'r generaduron a ddefnyddir yn rhai diweddar. Serch hynny, fe'ch cynghorir i sicrhau bod y garafan, ac unrhyw offer trydanol y byddwch yn cysylltu i'r cyflenwad, yn addas ac wedi ei brofi yn ddiweddar.

dd) Os byddwch yn cael unrhyw drafferth gyda'r cyflenwad trydan, mae'n holl bwysig eich bod yn adrodd **<u>yn syth</u>** i swyddfa'r maes carafanau, gan ofyn iddynt drosglwyddo'r neges i staff technegol yr Eisteddfod.

6. Ymddygiad

a) Bydd prif unedau y toiledau a chawodydd yn cael eu cloi yn nosweithiol rhwng 22:00 a 07:00.

b) Erfynnir am eich cymorth a chydweithrediad i geisio cadw'r toiledau a'r cawodydd yn lân. Darperir bwcedi a mop ymhob uned cawod a gofynnir i chwi barchu'r cyfleusterau er budd eich cyd breswylwyr.

c) Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol bolisi amgylcheddol ac fe'ch anogir i'n cynorthwyo drwy ailgylchu unrhyw wastraff a gynhyrchir.

ch) Dylid rhoi unrhyw sbwriel gweddilliol yn y sachau priodol (sydd i'w cael o'r swyddfa), a gwaredu'r sachau yn y biniau a ddarperir. Gofynnir yn garedig i chwi sicrhau nad ydych yn gadael unrhyw sbwriel ar eich ôl wrth adael.

d) Ni chaniateir ymolchi wrth y tapiau dŵr, a rhaid golchi bwcedi elsan wrth y tapiau priodol. Sicrhewch nad ydych yn golchi'r bwcedi hyn wrth y tapiau dŵr yfed.

dd) Gofynnir i chi beidio â chadw sŵn afresymol, yn enwedig ar ôl 22:00. Os derbynnir cwyn am sŵn, rhoddir un rhybudd, ac yna gweithredir rheol 6(f).

e) Gweithredir sustem tecstio gan swyddogion yr Eisteddfod yn ystod yr wythnos i gysylltu â phreswylwyr y maes carafanau a gwersylla yn ôl yr angen.

f) Os torrir un o'r rheolau ac amodau, gall pwyllgor yr Eisteddfod derfynu'r denantiaeth yn ddirybudd ac ar unwaith, neu gymryd unrhyw gamau eraill a fo'n agored iddo. Os gweithredir y rheol hon, ni ad-delir unrhyw dâl.

7. Iechyd a Diogelwch

a) Mae penderfyniad swyddogion yr Eisteddfod parthed unrhyw fater yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch yn derfynol.

b) Diffoddwr tân - rhaid cael diffoddwr tân pwrpasol, o leiaf 900 gram o bowdr. Hefyd, argymhellir yn gryf bod blanced tân pwrpasol ar gael yn yr ardal goginio.

c) Cymorth Cyntaf - rhaid cael offer cymorth cyntaf sylfaenol ym mhob carafán.

ch) Ni chaniateir tanau agored ar y maes, ond caniateir barbiciw pwrpasol.

d) Rhaid dilyn cyfarwyddyd unrhyw arwyddion a osodir ar y Maes.

dd) Ni chaniateir i neb gysgu mewn car.

e) Beiciau - derbynnir llawer o gwynion am ymddygiad plant a phobl ifanc yn mynd o amgylch y maes carafanau ar eu beiciau. Gwaherddir beiciau rhag defnyddio'r tracfyrddau, ac fe'u gwaherddir yn llwyr ar ôl iddi hi dywyllu. **Gofynnir i rieni gefnogi'r stiwardiaid parthed y rheol hon**.

f) Plant - gofynnir yn garedig i rieni sicrhau nad yw ymddygiad eu plant yn amharu ar fwynhad a diogelwch eu cyd-garafanwyr.

ff) Ac eithrio unrhyw amgylchiadau arbennig neu argyfyngus, gwaherddir defnydd o gerbydau ar y maes carafanau.

g) Bydd hawl parcio un cerbyd ac un cerbyd yn unig ger pob carafan. Rhaid parcio pob cerbyd ychwanegol (neu gerbyd yr ydych am ei ddefnyddio yn ystod yr wythnos) mewn maes parcio dynodedig fydd gerllaw.

8. Tân

a) Rhaid cadw gofod digonol rhwng eich uned a'r uned nesaf, yn unol â chyfarwyddyd y swyddogion ar y maes.

b) Gosodir bob carafán o fewn tua 90 medr i bwynt tân. Ym mhob pwynt tân ceir dau ddiffodydd 9 litr dŵr, a chloch i'w chanu er mwyn tynnu sylw. Gofynnir i chi ymgyfarwyddo â lleoliad y pwynt tân agosaf.

c) Os digwydd tân, symudwch bawb allan yn syth, a rhybuddiwch y bobl yn y carafanau o'ch cwmpas. Ewch i'r swyddfa i alw am y frigâd dân, neu defnyddiwch ffôn symudol i alw 999 neu 112.

9. Ymwelwyr

Rhaid i bob ymwelydd barcio ym maes parcio dynodedig y Maes Carafanau.

10. Tocyn Mynediad Wythnos

Mae amrediad o gynigion arbennig i blant ac oedolion i brynu tocynnau mynediad wythnos i'r Maes ymlaen llaw am bris gostyngol. Gweler manylion y cynigion arbennig isod sydd yn rhedeg hyd at yr 31ain Mai 2010.

Tocyn Maes (Oedolyn) Wythnos	£85
Tocyn Maes (Myfyriwr dan 21) Wythnos	£50
Tocyn Maes (Plentyn dan 12) Wythnos	£12

Bydd manylion pellach am arlwy Maes C fydd wedi'i leoli ym Mharc Bryn Bach ar gael erbyn Pasg 2010. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol ar y ffurflen gais er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.**

11. Parc Bryn Bach, Tredegar

Mae'r Parc mewn lleoliad cyfleus oddi ar yr A465, yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a gweithgareddau. Os ydych am fynd am dro neu feicio o amgylch y llyn, neu gymryd rhan yn un o'r llu o weithgareddau antur sydd ar gael yn y Parc, mae rhywbeth ar gael i bawb.

Mae'r Parc mewn lleoliad delfrydol yn agos at Fannau Brycheiniog a'r Mynydd Du ac mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn ganolfan ddelfrydol i feicwyr a cherddwyr i fwynhau'r dreftadaeth gyfoethog, yr ardaloedd gwledig hyfryd a'r bywyd gwyllt cyfagos. Am wybodaeth bellach ewch i www.blaenau-gwent.gov.uk/CYM/leisure/5807.asp

Am y wybodaeth ddiweddaraf am
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010
ewch i'n gwefan sef
www.eisteddfod.org.uk

neu'r dudalen ar facebook
www.facebook.com/eisteddfod

Eisteddfod Genedlaethol

Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd

Gorffennaf 31 – Awst 7 2010

Swyddfa'r Eisteddfod
Uned 15 Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XP

0845 122 2003

www.eisteddfod.org.uk
www.facebook.com/eisteddfod